

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Rushcliffe

Aberafan

Dyddiad arolygu: Rhwng 5 a 7

Tachwedd 2018

Dyddiad cyhoeddi: 8 Chwefror

2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf.....	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol.....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	23
4.	Beth nesaf?.....	26
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	28
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	29
	Atodiad B – Cynllun gwella	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol yn Ysbyty Annibynnol Rushcliffe (Aberafan). Dechreuodd yr arolygiad ar noson 5 Tachwedd 2018 a pharhau ar 6 a 7 Tachwedd.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth i gleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd dymunol. Dangosodd y gwasanaeth bwyslais ar ofal sy'n canolbwyntio ar y cleifion.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darparodd yr ysbyty ddull gweithredu diogel, sy'n canolbwyntio ar y cleifion, wrth ddelio ag adsefydlu
- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn hapus gyda'u gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty a'r staff
- Roedd yr ysbyty yn defnyddio amrywiaeth o amwynderau lleol er mwyn darparu gweithgareddau a oedd yn helpu'r cleifion i ymadfer ac adsefydlu

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu mwy o storfeydd yn yr awyr agored er mwyn tacluso rhai ardaloedd cleifion.
- Mae angen glanhau cegin y cleifion ar ward yn drylwyr a dylid ystyried adnewyddu'r ystafell gyfan.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Rushcliffe, Aberafan wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth adsefydlu iechyd meddwl annibynnol dan glo yn:

Ysbyty Rushcliffe,
Scarlet Avenue
Aberafan
Port Talbot
SA12 7PH

Uned ar gyfer dynion yn unig, gyda 18 o welyau sydd yn y lleoliad. Ar adeg yr arolygiad, roedd 13 o gleifion yno.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 8 Gorffennaf 2009.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys;

- 2 Reolwr Cofrestredig sy'n Nyrsys Iechyd Meddwl Cofrestredig.
- 7 nyrs iechyd meddwl cofrestredig llawn amser, 2 nyrs iechyd meddwl cofrestredig mewnlol ar system staff banc ar gyfer gwydnwch.
- 19 o weithwyr cymorth llawn amser a 2 weithiwr cymorth ar system staff banc ar gyfer gwydnwch.
- Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys 1 Seiciatrydd Ymgynghorol, 1 Seicolegydd gyda Seicolegydd Cynorthwyol.
- 1 Therapydd Galwedigaethol (OT) llawn amser ac un Therapydd Galwedigaethol Cynorthwyol.
- 1 cydlynnydd gweithgareddau llawn amser.

Gallai'r tîm hwn hefyd ddefnyddio therapydd cerddoriaeth a therapydd celf a oedd yn fyfyrwyr yn y maes ar sail cylchdro chwe mis o brifysgol leol.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y cleifion yn trafod y gwasanaeth mewn ffordd gadarnhaol iawn ac roeddent o'r farn eu bod yn derbyn gofal o ansawdd da.

Roedd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddefnyddio gwasanaethau cymunedol lleol fel rhan o'r gofal adsefydlu.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd hybu, diogelu a gwella iechyd yn rhan o'r gofal a ddarperir yn ysbyty Rushcliffe. Roedd y Strategaeth Iechyd a Lles Corfforol yn cefnogi iechyd corfforol cleifion; roedd hyn yn cynnwys mentrau iechyd a lles corfforol.

Mae lleoliad yr ysbyty yn galluogi'r cleifion i gael ffordd o fyw iach â digon o ardaloedd yn yr awyr agored ar gyfer gweithgareddau corfforol. Roedd gan yr ysbyty sawl beic mynydd ar gyfer y cleifion, gan fod llwybr beicio wrth ymyl yr ysbyty. Roedd cyfarpar pysgota hefyd ar gael er mwyn cyd-fynd â lleoliad Aberafan ar lan y môr.

Roedd nifer o gyfleusterau yn yr ysbyty hefyd. Roedd ystafell sinema gymunedol â silffoedd yn llawn llyfrau a gemau. Roedd ystafelloedd pŵl, cerddoriaeth, celf a gwaith pren hefyd ar gael i'r cleifion i'w defnyddio ar gais.

Roedd llawer o wybodaeth ar yr hysbysfyrddau yn yr ardaloedd cymunedol ynglŷn â hyrwyddo iechyd sy'n briodol i'r grŵp cleifion. Roedd bowlen o ffrwythau ar gael i'r cleifion i'w bwyta pan oeddent yn dymuno gwneud hynny. Roedd y cleifion hefyd yn gallu defnyddio cegin y cleifion hyd at 11pm bob nos i baratoi prydau bach iddynt eu hunain.

Roedd gan Rushcliffe amrywiaeth o gyfleusterau i helpu i ddarparu therapïau a gweithgareddau ynghyd â mynediad rheolaidd i'r gymuned i'r cleifion hynny a oedd wedi cael awdurdod i adael yr ysbyty.

Roedd y staff yn mynd ati i ennyn diddordeb cleifion mewn Gweithgareddau Bywyd Beunyddiol¹ a oedd yn hyrwyddo adferiad ac adsefydlu, megis paratoi prydau bwyd a gweithgareddau domestig eraill, a'u helpu i gymryd rhan ynddynt. Roedd dwy ystafell golchi dillad a oedd yn cynnwys peiriant golchi dillad a pheiriant sychu dillad er mwyn galluogi'r cleifion i ddysgu sgiliau domestig a'u cynnal.

Roedd y cleifion yn derbyn aelodaeth i gampfa leol a chyfleusterau hamdden eraill yn y gymuned leol y gallant eu defnyddio pan gawsant eu rhyddhau.

Roedd gan yr ysbyty dri cherbyd dynodedig; roedd y rhain yn galluogi'r staff i hwyluso gweithgareddau i'r cleifion, lleoliadau gwaith gwirfoddol ac apwyntiadau meddygol yn y gymuned.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos yn yr ysbyty i gleifion, a oedd yn cynnwys manylion ynglŷn â sut i godi cwyn a chysylltu â sefydliadau allanol megis yr adran ddiogelu leol, yr heddlu a manylion am y trefniadau eiriolaeth a oedd ar gael. Fodd bynnag, ni chafodd manylion cyswllt AGIC eu harddangos yn ardal y ward.

Roedd gan y gwasanaeth eiriolwr a oedd yn dod i'r ysbyty am ddiwrnod cyfan bob pythefnos ac yn eistedd yn ardal gymunedol yr ysbyty fel y gall y cleifion siarad ag ef/hi os oeddent am wneud hynny. Er bod cryn dipyn o wybodaeth yn cael ei harddangos, roedd ychydig o wybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion ar ffurf Hawdd ei Ddarllen neu yn Gymraeg hefyd, neu a oedd ar gael yn hawdd.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff manylion cyswllt AGIC eu harddangos yn ardal ward yr ysbyty.

¹ Gall y gweithgareddau hyn gynnwys tasgau bob dydd megis gwisgo, hunanfwydo, ymolchi, golchi dillad, a pharatoi prydau bwyd.

Urddas a pharch

Nodwyd bod pob cyflogai: staff y ward, uwch reolwyr a staff gweinyddol, yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roeddent yn cefnogi ac yn gofalu am y cleifion.

Clywsom staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad. Gwelsom fod staff yn trin y cleifion â pharch; pan oedd cleifion yn mynd i fyny at aelodau o staff roeddent yn cael eu trin mewn ffordd gwrtais ac ymatebol. Ar y cyfan, cytunodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch yn yr ysbyty.

Roedd y staff yn cymryd eu hegwyl fwyd yn y ward ac yn eistedd gyda'r cleifion i fwyta. Roedd hyn yn creu amgylchedd cyfeillgar a chadarnhaol iawn. Mae swyddfa'r rheolwr cofrestredig hefyd wedi'i leoli ar y ward. Mae'r rheolwr cofrestredig yn defnyddio polisi drws agored fel y gall y cleifion siarad ag ef unrhyw bryd. Gwnaethom weld sawl enghraifft o hyn yn ystod ein harolygiad a gwnaeth helpu i greu awyrgylch cadarnhaol iawn yn yr ysbyty.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun â chyfleusterau 'en suite' y gallai fynd iddi drwy gydol y dydd; roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig safon dda o breifatrwydd i gleifion. Roedd cleifion yn gallu cloi eu hystafelloedd gwely eu hunain, y gallai'r staff eu datgloi os oedd angen. Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely cleifion ac roedd yn amlwg bod modd i gleifion bersonoli eu hystafelloedd a bod digon o le i storio eu heiddo.

Roedd gan yr ysbyty ystafelloedd penodol i gleifion gyfarfod â staff y ward a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn breifat. Roedd trefniadau ymweld ar waith i gleifion gwrdd ag ymwelwyr yn yr ysbyty. Roedd safon y dderbynfa a'r ystafell ymweld yn dda iawn ac roeddent yn darparu amgylchedd cartrefol a digynnwrf i'r cleifion gyfarfod ag ymwelwyr.

Mae gan yr ystafell deledu ffenestr fawr sy'n gorchuddio'r wal allanol gyfan sy'n edrych dros lan y môr Aberafan. Pan fydd y goleuadau ymlaen yn ystod y nos, gall aelodau o'r cyhoedd sy'n cerdded ar hyd y llwybr cerdded prysur y tu allan i'r ffenestr yma edrych i mewn i'r ysbyty a gweld y teledu a'r ardal fwyta lle y mae'r cleifion yn cymdeithasu. Mae ffilm adlewyrchol ar y ffenestr sy'n atal y cleifion rhag edrych allan o'r ffenestr yma gyda'r nos pan fydd goleuadau mewmol yr ysbyty ymlaen. Gallai hyn gael effaith andwyol ar urddas a phreifatrwydd y cleifion

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig gymryd y camau priodol er mwyn sicrhau y caiff urddas a phreifatrwydd cleifion eu parchu mewn perthynas â'r hyn y gellir ei weld o'r ysbyty o'r llwybr cerdded cyhoeddus y tu allan i'r ystafell deledu.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Fel y nodir uchod, roedd gwybodaeth i gleifion ar gael.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a chleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â chleifion. Roedd staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i bob claf. Lle roedd cleifion yn cael anhawster o hyd i egluro rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roeddent yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Roedd cyfran fawr o'r staff yn yr ysbyty wedi bod yn gyflogeion hirsefydledig ac roedd ganddynt gyberthnasau da iawn â'r cleifion. Roeddent yn gyfeillgar ond yn sicrhau bod ffin broffesiynol rhyngddynt nhw â'r cleifion.

Mae'r ysbyty yn cynnwys un ward fawr. Mae'r uwch nyrsys yn newid ddwywaith y diwrnod yn gyffredinol a chaiff hyn ei ddogfennu. Cynhelir cyfarfod bob dydd yn ystod y bore gyda'r rheolwr cofrestredig ac uwch glinigwyr a staff eraill er mwyn trafod manylion eu diwrnod megis triniaethau a gweithgareddau cleifion gan gynnwys cyfnodau allan o'r ysbyty. Mae'r meddyg yn cynnal dau rownd ward bob dydd ac mae ar gael i bob claf. Mae'r lefel hon o ofal yn helpu i sicrhau y caiff holl anghenion y cleifion eu cyfathrebu a'u dogfennu i safon uchel.

Cafodd Cyfarfod Amlddisgyblaethol (MDT) ei gynnal bob dydd Mercher i drafod cleifion unigol. Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai cleifion gael cymorth gan gyrrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb cleifion, gallai eu teuluoedd a/neu eu gofawyr hefyd fod yn bresennol.

Cadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn cyfathrebu'n glir a'u bod yn deall eu gofal. Gwnaeth y cleifion hefyd nodi eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt.

Buom yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd clinigol, ac roedd yn amlwg bod trafodaethau'n canolbwyntio ar yr hyn a oedd orau i'r claf unigol. Pan oedd y claf yn bresennol yn y cyfarfod, roedd pob aelod o'r staff yn ymgysylltu mewn ffordd barchus ac yn gwranddo ar safbwyntiau'r claf, gan roi rhesymau clir i'r claf dros y penderfyniadau a wnaed.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ffocws clir ar roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion, gyda champau pwylllog i ryddhau claf i ryddhau cleifion yn briodol. Roedd gofal yn cael ei addasu ar gyfer yr unigolyn, roedd yn canolbwyntio ar adferiad ac roedd yn cael ei roi ar sail arferion lleiaf cyfyngol, o ran cynllunio gofal ac o ran arferion y ward neu'r ysbyty.

Roedd cyfran fawr o'r cleifion yn dod o ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr. Roedd yr ysbyty yn ystyrion iawn o hyn ac yn darparu trafndiaeth yn rheolaidd i gleifion ymweld â'u teuluoedd a oedd yn byw ymhell i ffwrdd.

Roedd gan bob claf ei raglen gofal ei hun a oedd yn seiliedig ar ei anghenion unigol megis meddyginiaeth, sesiynau therapi a gweithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, wedi'u lleoli yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau unigol a grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned. Roedd yn amlwg bod y cleifion a'r staff yn parchu ei gilydd.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd arferion y staff a oedd yn gyson â pholisïau a systemau sefydledig yr ysbyty yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau cleifion yn cael eu cynnal. Dangosodd yr ystadegau fod dros 90% o'r staff wedi cael yr hyfforddiant cymwys diweddaraf. Darparwyd yr holl hyfforddiant gorfodol i'r staff ar y safle gan y rheolwr cofrestredig.

Roedd ystafell aml-ffydd yn yr ysbyty a gallai unrhyw glaf ei defnyddio. Cafodd deiet Kosha ei ddarparu i un o'r cleifion.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd cyfleoedd i gleifion, perthnasau a gofalmwyr roi adborth ar y gofal a roddir yn yr ysbyty; cafodd y cleifion a'u teuluoedd eu gwahodd i gyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol er mwyn chwarae rhan lawn yn y broses o gynllunio'r gofal. Roedd yr holl fanylion cyswllt yn cael eu cadw'n llawn ar gofnodion gofal y cleifion.

Roedd manylion ynglŷn â'r weithdrefn gwyno ar gael ar y ward. Roedd trefniadau llywodraethu'r darparwr cofrestredig yn rhoi cyfle i ddadansoddi cwynion a monitro'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion yn unol â pholisi'r darparwr cofrestredig.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn trafod unrhyw bryderon gydag aelodau o'r staff a'u bod yn gwybod sut i godi cwyn os oedd angen. Roedd yr ysbyty wedi derbyn llythyron o ddiolch gan gleifion yn y gorffennol a'r cleifion presennol a'u teuluoedd ac roeddent yn canmol y gofal a ddarperir.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r rheolwr cofrestredig wedi'i leoli ar y ward a gallai'r cleifion fynd i siarad a chodi pryderon ag ef unrhyw bryd. Gwelwyd hyn yn digwydd dair gwaith yn ystod yr arolygiad.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roeddem yn fodlon bod y gwasanaeth yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y cleifion o safon uchel iawn. Roedd yn amlwg bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar adsefydlu ac roedd y nyrsys atal ailwaelu mewnol yn trefnu gweithgareddau a sesiynau er mwyn sicrhau y caiff hyn ei gyflawni.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan Rushcliffe brosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Gellir cyrraedd yr ysbyty drwy faes parcio agored o'i flaen. Yn ystod y dydd, roedd cyntedd bach agored â drws a oedd wedi'i gloi i gyrraedd y dderbynfa. Dim ond drwy ddefnyddio allwedd electronig y gellid cael mynediad iddo. Caiff y drws hwn ei gloi yn ystod y nos. Dim ond drwy system gloi aer yng nghefn y dderbynfa y gellid cael mynediad i'r ward. Mae pob rhan o'r ysbyty yn gwbl hygyrch i'r rheini â symudedd cyfyngedig a chadeiriau olwyn.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol a radios dwy ffordd y gallent eu defnyddio i alw am gymorth os oedd ei angen. Roedd manau galw am nyrs hefyd o amgylch yr ysbyty ac yn ystafelloedd gwely cleifion wrth ymyl eu gwelyau er mwyn i gleifion alw am gymorth os oedd angen.

Roedd digon o le yn yr ysbyty ac roedd pob ardal cleifion yn teimlo'n agored iawn. Roedd amgylchedd y ward mewn cyflwr da ac yn cynnwys dodrefn addas. Roedd dodrefn, gosodiadau a ffitiadau'r ysbyty yn briodol i'r grŵp cleifion. Gwelwyd bod rhywfaint o geblau teledu rhydd nad oeddent yn cael eu defnyddio yn yr ystafell sinema. Cawsant eu tynnu oddi yno ar unwaith gan y staff.

Roedd yr ystafell gwaith coed yn gyfleuster poblogaidd ymhlith y cleifion gan ei bod yn eu galluogi i fod yn greadigol o dan oruchwyliaeth y staff i adeiladu eitemau o'u dewis gan ddefnyddio'r cyfarpar a'r deunyddiau a ddarperir. Er hynny, roedd yr ystafell yn anniben iawn gan fod y beiciau a'r cyfarpar pysgota

yn cael eu cadw yno hefyd. Rhaid i'r ysbyty sicrhau y caiff yr ardal hon ei chadw i safon dda er mwyn darparu amgylchedd therapiwtig diogel i'r cleifion.

Roedd cegin y cleifion yn ddigon o faint i alluogi'r cleifion i gyd ei defnyddio, ond roedd angen ei glanhau'n drylwyr ac roedd yn ymddangos yn eithaf di-raen, yn amlwg gan ei bod yn cael ei defnyddio gymaint. Nid oedd yn glir p'un a oedd oergell y cleifion yn gweithio'n iawn gan fod llaeth ynddi a oedd o fewn ei ddyddiad wedi suro. Er hyn, roedd tystiolaeth yn dangos bod y llaeth yn cael ei adael y tu allan i'r oergell. Roedd darlenniadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n ddyddiol.

Roedd asesiad risg pwyntiau clymu ar waith; cafodd hyn ei ymgorffori o fewn asesiad risg penodol a gwblhawyd ar gyfer pob ardal yn y ward. Roedd y rhain yn nodi manau clymu posibl a pha gamau oedd wedi cael eu cymryd i gael gwared ar y rhain neu eu rheoli.

Roedd yr ystadegau hyfforddiant yn dangos bod bron pob aelod o staff wedi derbyn yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf a gafodd ei gynnal ar y safle. Canolbwyntiodd yr ysbyty ar ddefnyddio'r ymarfer lleiaf cyfyngol ar gyfer y cleifion, ac roedd y nifer fach iawn o ddigwyddiadau a gofnodwyd ar y ward yn dangos hyn. Cadarnhawyd hyn gan y cleifion hefyd.

Roedd lefelau staffio'r ysbyty yn dda gyda chymysgedd priodol o sgiliau a nifer y staff i ofalu am y grŵp cleifion ar adeg ein hymweliad. Nid oedd unrhyw swyddi gwag ar gyfer y staff ac roedd yn amlwg bod pob agwedd ar anghenion cleifion yn cael eu cymhwyso.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cegin y cleifion ei glanhau'n drylwyr yn rheolaidd.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried adnewyddu cegin y cleifion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o laeth i'r cleifion ac y caiff ei storio'n briodol.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o gyfleusterau storio ar gael ar gyfer y beiciau, y cyfarpar pysgota ac ati, a gaiff eu storio yn yr ystafell gwaith coed ar hyn o bryd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Drwy gydol yr arolygiad gwelsom fod yr ysbyty yn lân yr olwg heb unrhyw annibendod heblaw am yr ardal a nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn. Roedd yr offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol. Roedd cofnodion o amserlenni glanhau yn cael eu cynnal a oedd yn dangos gweithgarwch glanhau rheolaidd.

Roedd cyfarpar diogelu personol i atal a rheoli heintiau a diheintio hefyd ar gael i'r staff yn ôl y gofyn.

Roedd yr ystadegau hyfforddiant yn dangos bod yr holl staff yn ardal glinigol yr ysbyty wedi cael eu hyfforddi'n briodol ar atal a rheoli heintiau.

Maeth

Roedd prydau bwyd yn cael eu darparu i'r cleifion yn yr ysbyty a oedd yn cynnwys brecwast, cinio a phryd o fwyd gyda'r nos. Roedd y cleifion yn dewis eu prydau bwyd o fwydlen yr ysbyty a oedd ar gylch o bedair wythnos. Roedd hwn yn cael ei arddangos yn ardal gymunedol y ward. Mae gan y gwasanaeth gyfleuster hefyd i addasu prydau er mwyn bodloni gofynion deietegol penodol. Roedd gan gleifion hefyd fynediad i fyrbrydau yn ogystal â diodydd cynnes ac oer yn y gegin tan 11pm.

Roedd safbwyntiau cleifion ar y prydau bwyd a ddarperir yn yr ysbyty yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd rhai cleifion yn cwyno bod y bwyd yn ailadroddus ac nad oedd y fwydlen yn newid yn aml iawn. Awgrymodd un claf nad oeddent yn cael digon o fwyd yn y gorffennol ond bod y sefyllfa wedi newid yn ddiweddar.

Fodd bynnag, roedd y cleifion yn gallu coginio eu bwyd eu hunain yn ôl yr angen. Roedd y cleifion gallu mynd i mewn i'r gymuned i brynu eitemau o fwyd a chynhwysion. Nodwyd gennym hefyd y byddai staff ward a staff y gegin yn prynu eitemau penodol o fwyd a chynhwysion ar ran claf os nad oeddent wedi cael caniatâd i adael yr ysbyty.

Yn ystod yr arolygiad, ni chafodd y bwyd a oedd yn weddill o'r pryd gyda'r nos ei orchuddio na'i storio'n briodol ym mhrif gegin yr ysbyty. Ni chafodd ei glirio a'i waredu yn y ffordd briodol. Roedd rhywfaint o anghytuno ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd hon. Dylai rheolwyr yr ysbyty sicrhau bod polisi clir ar waith i ddelio â'r mater hwn er mwyn sicrhau na fydd yn digwydd eto.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod polisi clir ar waith ar gyfer gwaredu a storio bwyd yn dilyn pob pryd.

Rheoli meddyginiaethau

Yn gyffredinol, roedd y broses o reoli meddyginiaethau yn yr ysbyty yn ddiogel ac yn effeithiol. Cafodd rhywfaint o feddyginiaethau eu storio ar silff agored y troli meddyginiaethau, oherwydd diffyg lle i'w storio. Fel arfer, roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau ac oergelloedd a oedd dan glo. Roedd troliâu meddyginiaethau dan glo ac yn cael eu diogelu pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd.

Fodd bynnag, nid oedd llawer o le yn weddill i storio'r meddyginiaethau. Ar adeg yr adolygiad, nid oedd yr ysbyty yn llawn ac roedd llefydd ar gyfer pum claf arall, felly mae'n bosibl na fyddai digon o le i storio meddyginiaethau yn yr ystafell glinig pe bai mwy o gleifion yno.

Adolygwyd samplau o siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (MAR). Roedd pob un o'r siartiau a welwyd yn cynnwys enw'r claf a'i statws o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd siartiau MAR yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan fyddai meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi. Fodd bynnag, roedd nifer fach o siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn anghyflawn o ran cofnodi achosion lle'r oedd y claf wedi gwrthod meddyginiaeth.

Roedd cofnodion y meddyginiaethau a reolir mewn cyflwr da. Cwblhawyd gwiriadau rheolaidd o stociau'r meddyginiaethau a reolir o gymharu â'r cofnodlyfr ar bob cam trosglwyddo.

Roedd archwiliad allanol gan fferylllydd yn cael ei gynnal yn rheolaidd a oedd yn helpu'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth yn yr ysbyty. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod yr archwiliad yn nodi gwallau'n rheolaidd ac nad oedd hyn yn gwella ymarfer y staff bob amser.

Roedd y staff yn gallu cael gafael ar yr holl bolisiâu perthnasol ar reoli meddyginiaethau yn yr ysbyty, er eu bod yn dyddio yn ôl i 2016. Dylid ailystyried y polisiâu hyn a sicrhau eu bod yn gyfredol er mwyn ymgorffori

unrhyw newidiadau ar yr adeg hon. Roedd y staff hefyd yn gallu cael gafael ar Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (BNF)².

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o lefydd i storio meddyginiaeth yn yr ysbyty.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau siartiau MAR pan fydd cleifion yn gwrthod meddyginiaeth.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau yr eir i'r afael â'r gwallau a nodir yn archwiliad y fferylllydd ac y gwneir gwelliannau cynaliadwy i ymarfer staff.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd yr ystadegau hyfforddiant a ddarparwyd gan y darparwr cofrestredig yn dangos bod 100% o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu cyfredol. Caiff yr hyfforddiant ei ddarparu ar y safle gan y rheolwr cofrestredig.

Roedd y dogfennau diogelu mewn cyflwr da yn yr ysbyty ac roedd ansawdd yr atgyfeiriadau yn dda. Mae gan yr ysbyty gydberthynas waith dda â'r adran ddiogelu leol a'r uned diogelu'r cyhoedd.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Cwblhawyd archwiliadau rheolaidd o'r cyfarpar dadebru ar y ward. Roedd y rhain yn nodi bod yr holl gyfarpar dadebru yn bresennol ac yn gyfredol. Fodd bynnag, nid oedd y cyfarpar yn cael ei gadw gyda'i gilydd felly nid oedd yn bosibl cynnal archwiliad o bob un ohonynt ar yr un pryd. Dylai'r ysbyty ystyried

² Llyfr cyfeirio fferyllol yw Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain sy'n cynnwys rychwant eang o wybodaeth a chynghor ar ragnodi a ffarmacoleg, ynghyd â ffeithiau penodol a manylion am feddyginiaethau unigol.

cadw'r holl gyfarpar mewn bag 'Go' er mwyn sicrhau ei fod yn haws eu defnyddio mewn argyfwng.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried dull amgen o storio'r cyfarpar meddygol mewn argyfwng.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i gleifion a'i fod o safon dda. Roedd trefniadau llywodraethu'r ysbyty yn bwydo i mewn i drefniadau llywodraethu corfforaethol Grŵp Rushcliffe a oedd yn hwyluso proses ddwyffordd o fonitro a dysgu.

Nodwyd meysydd o ymarfer da iawn, megis:

- Asesiadau derbyn 72 awr a rhestrau gwirio derbyn
- Sesiynau therapiwtig un i un
- Defnyddio sawl math o offer sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn hwyluso triniaeth
- Gwelwyd bod safon yr adolygiadau o'r Cynllun Gofal a Thriniaeth (CTP) a'r Tîm Amlddisgyblaethol (MDT) yn rhagorol.
- Nodwyd bod yr ysbyty yn defnyddio dull cadarnhaol iawn o weithredu er mwyn defnyddio'r ymyriadau lleiaf cyfyngol, ac nid oedd fawr ddim atal yn cael ei ddefnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff rhestrau gwirio wrth dderbyn cleifion eu cwblhau'n llawn neu roi tystiolaeth i egluro'r bylchau.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Dangosodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth o waith ymchwil a gaiff ei gynnal gan staff clinigol yn yr ysbyty ym maes Rhagnodi meddyginiaethau ar gyfer sgil-ffeithiau seicotropig mewn uned adsefydlu seiciatrig. Cafodd hyn ei gyflwyno

yngh Nghynhadledd Ryngwladol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yngh Nghaeredin yn 2017.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion wedi'u cwblhau ar bapur. Gwelwyd bod eu safon yn rhagorol; roedd y mynegai yn dda iawn ac yn glir i'r darllenydd. Mae'r nodiadau MDR yn electronig ond cedwir copi papur ohonynt yn ffeil nodiadau gofal y claf.

Gwelsom y staff yn rhoi arian i glaf yn y dderbynfa i'w ddefnyddio y tu allan i'r ysbyty. Nid oedd unrhyw dystiolaeth yn dangos bod y claf wedi llofnodi amdano wrth dderbyn yr arian. Dylai'r ysbyty ystyried tynhau'r broses hon er mwyn sicrhau bod trywydd archwilio yn dangos cleifion yn derbyn eu harian. Bydd hyn yn helpu gydag unrhyw ymholiadau ac anghysondebau yn y dyfodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod archwilio clir o'r arian a roddir i gleifion.

Monitro'r Deddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol tri claf. Adolygwyd hefyd y prosesau llywodraethu ac archwilio a oedd ar waith i fonitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn yr ysbyty.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion yn unol ag Adran 58 o'r Ddeddf, Cydsynio i Driniaeth; ac roedd tystysgrifau cydsynio i driniaeth bob amser yn cael eu storio gyda'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth. Golygai hyn fod y staff a oedd yn rhoi'r feddyginiaeth yn gallu cyfeirio at y dystysgrif er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth wedi'i rhagnodi o dan ddarpariaethau cydsynio i driniaeth adran 58 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd pob achos o ryddhau cleifion dros dro o'r ysbyty wedi cael ei awdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni Rhyddhau Adran 17. Roedd y ffurflenni Rhyddhau Adran 17 yn nodi'n glir yr amodau rhyddhau, h.y. wedi'i hebrwng neu heb ei hebrwng, lleoliad a hyd. Roedd yn amlwg y cafodd y cyfle hwn i adael yr ysbyty ei hwyluso gymaint â phosibl er mwyn diwallu anghenion y claf.

Mewn rhai achosion, nid oedd cofnodion cleifion yn dogfennu p'un a oedd y claf wedi cael cynnig copi o'i ffurflen Rhyddhau Adran 17 sy'n ofynnol neu wedi

derbyn copi er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983, Diwygiedig 2016 (y Cod), paragraff 27.18. Rhaid i'r ysbyty sicrhau bod pob achos yn cydymffurfio â hyn.

Roedd amrywiaeth o daflenni gwybodaeth i gleifion ar gael i'r staff er mwyn eu helpu yn ystod trafodaethau gyda chleifion ar eu gofal a'u triniaeth yn yr ysbyty. Roedd cofnodion y claf yn dogfennu ei fod wedi cael ei hysbysu am ei hawliau (Adran 132 o'r Ddeddf), ar lafar a gydag esboniadau ysgrifenedig.

Gwelwyd bod yr holl achosion o gadw cleifion yn gyfreithiol yn unol â'r ddeddfwriaeth ac yn cael eu dogfennu'n dda. Roedd dau aelod o'r staff yn gweithredu fel Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn ogystal â dyletswyddau eraill. Cafodd yr holl ddogfennaeth ofynnol ei chadw ar y safle ac roeddent o ansawdd uchel. Dangoswyd bod problemau'n ymwneud â'r fformat a ddefnyddir i lenwi'r ddogfennaeth; roedd y ffeiliau'n ddryslyd iawn i'r darlennydd. Mae angen cyfuno a symleiddio'r ffeiliau gan sicrhau mai dim ond y dogfennau gwreiddiol a gaiff eu cadw yn hytrach na'r copïau, gan eu bod yn cael eu dyblygu mewn ffeiliau gwahanol ar hyn o bryd. Ni nodwyd y copïau na'u stampio i gydnabod mai copïau ydynt cyn iddynt gael eu hanfon i'r ward a gallai hyn beri dryswch.

Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o adnoddau, amser a staff sy'n meddu ar wybodaeth briodol i gyflawni dyletswydd statudol y darparwr cofrestredig o'r Ddeddf a bod y practis yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Cod.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o adnoddau, amser a staff sy'n meddu ar wybodaeth briodol i gyflawni dyletswydd statudol y darparwr cofrestredig o'r Ddeddf a bod y practis yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Cod.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal chwe chlaf i gyd.

Roedd o safon uchel iawn yn gyffredinol.

Gwelwyd tystiolaeth bod cydgysylltwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion. Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu parthau Mesur Cymru gydag amcanion mesuradwy ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth unigol yn cyfeirio at gryfderau'r claf ac yn canolbwyntio ar wellhad, adsefydlu ac annibyniaeth. Roedd y rhain wedi cael eu datblygu gydag aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol ac yn defnyddio ymarfer

sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth hefyd yn cynnwys cofnod da o fonitro iechyd corfforol a hybu iechyd.

Er mwyn cefnogi cynlluniau gofal cleifion, roedd amrywiaeth o asesiadau cleifion er mwyn nodi a monitro darpariaeth gofal cleifion, ynghyd ag asesiadau risg sy'n nodi'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Cadarnhaodd y cleifion eu bod yn cael eu hannog i fod yn rhan o'r broses o ddatblygu eu gofal gyda ffocws ar ryddhau i amgylchedd llai cyfyngol. Cafwyd tystiolaeth o gynlluniau i ryddhau cleifion ar gyfer y rheini sy'n dilyn y llwybr hwnnw.

Gyda chaniatâd y claf unigol buom yn bresennol mewn nifer o adolygiadau gofal, gan arsylwi ar y staff yn cynnal cyfarfod cynhwysol oedd yn canolbwyntio ar y claf. Pan benderfynodd claf beidio â chymryd rhan yn y cyfarfod, gwelsom fod y staff yn gwrando ar safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion ac yn rhoi rhesymau clir dros y penderfyniadau a wnaed. Gallai aelodau o'r teulu ac eiriolwyr fynychu'r cyfarfodydd hyn os byddai'r cleifion am iddynt wneud hynny.

Ni welwyd fawr ddim tystiolaeth yn y cynlluniau gofal o achosion lle na chafodd anghenion nas diwallwyd eu nodi na ph'un a oedd gan gleifion alluedd i gytuno ar gynlluniau triniaeth. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff y ddau fater uchod eu dogfennu yng nghynlluniau gofal y cleifion unigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y rhoddir tystiolaeth o anghenion nas diwallwyd yng nghynlluniau gofal cleifion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y rhoddir gwybodaeth ynglŷn â ph'un a oes gan gleifion alluedd i roi caniatâd ar gyfer cynllun gofal.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom dystiolaeth o strwythur rheoli da iawn a oedd yn cynnwys arweinwyr strwythuredig cadarn a chydberthynas gadarnhaol â staff a chleifion.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd gan yr uwch reolwyr a nodwyd gyfrifoldebau penodol am sicrhau bod y rhaglen lywodraethu yn parhau i fod yn flaenllaw wrth ddarparu gwasanaethau. Roedd y trefniadau hynny'n cael eu cofnodi fel y gellid eu hadolygu yn yr ysbyty ac yn y strwythur sefydliadol ehangach.

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio'n glir yn ystod y dydd ac roedd trefniadau i uwch reolwyr ar alw ar waith ar gyfer y sifft nos. Roedd nyrs gofrestredig yn gyfrifol am yr ysbyty yn gyffredinol yn ystod sifft nos.

Roedd cydweithio cadarn fel tîm amlddisgyblaethol gyda'r staff yn siarad yn ffafriol am ei gilydd ac yn nodi eu bod yn teimlo bod aelodau eraill o staff yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu parchu.

Soniodd y staff yn gadarnhaol am y cymorth gan gydweithwyr o bob disgyblaeth a nodwyd bod morâl yn uchel. Nid oedd unrhyw swyddi gwag yn yr ysbyty ac roedd nifer o'r staff wedi bod yn gweithio yno ers peth amser sy'n dangos bod gan y tîm gydberthynas gadarn. Nodwyd gennym fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Roedd yn gadarnhaol bod staff Rushcliffe, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein sylwadau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion a gwnaethant weithredu arnynt yn syth ar ôl ein trafodaethau.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith yn yr ysbyty. Mae'r polisi yn cynnig strwythur i ymdrin â chwynion cleifion ar gyfer gwasanaethau yn ysbyty Rushcliffe.

Roedd cwynion yn cael eu categorio'n rhai anffurfiol neu ffurfiol. Roedd y rheolwr cofrestredig yn delio â'r holl gwynion yn ogystal â'u cymeradwyo. Roedd cwynion ffurfiol yn cael eu monitro a'u hadolygu drwy drefniadau llywodraethu corfforaethol a oedd yn sicrhau bod y broses gwyno yn cael ei dilyn a'i chwblhau.

Roedd system ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Cawsant eu cofnodi ar y system bapur a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o atal yn gorfforol yn cael ei ddogfennu. Cawsant eu dogfennu ar y nodiadau gofal hefyd.

Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi.

Roedd trefniadau ar waith i ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau i'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Adolygwyd y niferoedd staffio yn ysbyty Rushcliffe ac roedd yn amlwg bod y darparwr cofrestredig wedi mynd ati i recriwtio er mwyn llenwi unrhyw swyddi gwag yn yr ysbyty. Ar adeg yr arolygiad roedd pob swydd wag wedi cael ei llenwi;

Ni ddibynnwyd ar staff asiantaeth i lenwi rotâu. Roedd sawl cyn-gyflogai yn gweithio fel staff banc ac roeddent ar gael ar fyr rybudd os oes eu hangen. Roedd y ddau reolwr cofrestredig yn nyrsys cofrestredig a oedd hefyd yn cynnig gwydnwch.

Gwnaethom adolygu'r ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff a gwelsom fod y cyfraddau cwblhau yn uchel iawn ar y cyfan a chaiff yr holl hyfforddiant gorfodol ei gwblhau yn fewnol gan un o'r rheolwyr cofrestredig.

Roedd yr holl achosion eraill o gydymffurfio â hyfforddiant yn uchel iawn hefyd. Mae gan y gwasanaeth fatrics hyfforddiant sy'n galluogi'r tîm rheoli i nodi'r anghenion hyfforddiant ac i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl agweddau ar hyfforddiant.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Esboniodd y staff y prosesau recriwtio a oedd ar waith yn ysbyty Rushcliffe, ac edrychwyd ar sampl o ffeiliau pedwar aelod o'r staff. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg; gyda chofnodion o geisiadau, cyfweiliadau a chyfathrebu ym mhob ffeil. Roedd geirdaon staff cyn cyflogaeth yn cael eu derbyn, roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau ac roedd gwiriadau'r gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal, ac yna'n hadnewyddu bob tair blynedd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd ceblau teledu rhydd wedi'u gadael yn yr ystafell deledu	Gellid eu defnyddio i hunan-niweidio ac roeddent yn achosi risg bosibl o glymu	Rhoddwyd gwybod i'r rheolwr cofrestredig	Aethpwyd â'r ceblau oddi yno ar unwaith

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Rushcliffe, Aberafan

Ward/uned(au): uned gyfan

Dyddiad arolygu: 5 6 7 / 11 / 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff manylion cyswllt AGIC eu harddangos yn ardal ward yr ysbyty.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Cam wedi'i gwblhau- caiff manylion cyswllt eu harddangos yn yr ardal atriwm ac ar yr hysbysfwrdd i gleifion.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig gymryd y camau priodol er mwyn sicrhau y caiff urddas a phreifatrwydd cleifion eu parchu mewn perthynas â'r hyn y gellir ei weld o'r ysbyty o'r	10. Urddas a pharch	Mae llenni ar bob panel ffenestr yn ystafelloedd y cleifion, ac mae'r cleifion wedi cael eu hannog a'u hatgoffa i gau'r llenni wrth fynd i'r gwely. Fodd bynnag, mae'r cleifion wedi gwrthod cael llenni		

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ilwybr cerdded cyhoeddus y tu allan i'r ystafell deledu		neu gysgodlenni wedi'u gosod yn yr ystafell deledu gan eu bod bob amser yn eu dillad ac yn weddus yn yr ardal honno a hoffent weld y môr yn llawn o'r ystafell hon.		
	9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion			
	18. Cyfathrebu'n effeithiol			
	8. Cynllunio a darparu gofal			
	2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol			
	5. Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cegin y cleifion ei glanhau'n drylwyr yn rheolaidd.</p> <p>Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried adnewyddu cegin y cleifion.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o laeth i'r cleifion ac y caiff ei storio'n briodol.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o gyfleusterau storio ar gael ar gyfer y beiciau, y cyfarpar pysgota ac ati, a gaiff eu storio yn yr ystafell gwaith coed ar hyn o bryd</p>	<p>22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p> <p>12. yr amgylchedd</p> <p>4. Trefniadau Cynllunio at Argyfyngau</p>	<p>Mae rota glanhau trylwyr wedi cael ei rhoi ar waith ac wedi'i chwblhau yn unol â'r cynllun.</p> <p>Cafodd y gegin ei phaentio'n ddiweddar ac archebwyd cypyrddau newydd.</p> <p>Prynwyd oergell fach ar gyfer laeth hefyd.</p> <p>Archebwyd cynhwysydd 20 troedfedd a gaiff ei osod y tu allan ac felly caiff pob beic a chyfarpar arall eu cadw'n ddiogel yn briodol.</p>		
	<p>13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod polisi clir ar waith ar gyfer gwaredu a storio bwyd yn dilyn pob pryd	14. Maeth	Mae adran 2.8 o bolisi bwyd Ysbyty Rushcliffe yn datgan y caiff bwyd ei daflu o fewn 90 munud i'w weini os na chaiff ei fwyta.		
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o lefydd i storio meddyginiaeth yn yr ysbyty.</p> <p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau siartiau MAR pan fydd cleifion yn gwrthod meddyginiaeth.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau yr eir i'r afael â'r gwallau a nodir yn archwiliad y fferyllydd ac y gwneir gwelliannau cynaliadwy i ymarfer staff.</p>	15. Rheoli meddyginiaeth au	<p>Cafodd cypyrddau dwbl newydd eu gosod yn yr ystafell glinig.</p> <p>Cafodd gweithdrefn newydd ar gyfer gwirio meddyginiaeth ei rhoi ar waith. Wrth drosglwyddo, caiff siartiau meddyginiaeth eu hadolygu gan y nyrs sy'n gadael a'r nyrs sy'n dechrau ar ei sifft ac o ganlyniad i hyn maent yn sicrhau eu bod cydymffurfio 100% o ran llofnodion.</p>		
	11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed			
	17. Rheoli gwaed			
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried dull amgen	16. Dyfeisiau meddygol,	Archebwyd bag storio ar gyfer cyfarpar		

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
o storio'r cyfarpar meddygol mewn argyfwng	offer a systemau diagnostig	meddygol mewn argyfwng.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff rhestrau gwirio wrth dderbyn cleifion eu cwblhau'n llawn neu roi tystiolaeth i egluro'r bylchau.	7. Gofal sy'n ddiogel ac yn glinigol effeithiol	Mae hyn yn rhan o'r broses archwilio a chaiff ei wneud bob mis gan Reolwr Cofrestredig yr Ysbyty.		
	6. Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd 21. Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd			
	19. Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu			
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod archwilio clir o'r arian a roddir i gleifion.	20. Rheoli cofnodion	Mae dogfen newydd ar waith s'n ei gwneud yn ofynnol i'r staff a'r cleifion allgofnodi eu harian pan fyddant am fynd allan yn y gymuned.		

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
	1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd			
	23 Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau			
	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol			
	24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Robert Tamirepi

Swydd: Rheolwr cofrestredig

Dyddiad: 24/01/19